# Nodyn cynghori’r Eog Cefngrwm (Oncorhynchus gorbuscha) – diweddariad 2023

## Cyflwyniad

Diben y nodyn cyngor hwn yw sicrhau’r canlynol:

1. mae holl randdeiliaid pysgodfeydd, gan gynnwys rheolwyr pysgodfeydd, pysgotwyr a deiliaid trwydded rhwydi, yn effro i’r posibilrwydd y bydd eogiaid cefngrwm yn dychwelyd i afonydd Cymru yn ystod 2023.

2. mae pob rheolwr pysgodfa, pysgotwr a deiliad trwydded rhwydi eogiaid mudol yn gwybod beth i'w wneud os gwelir eogiaid cefngrwm neu os ydynt yn cael eu dal yng Nghymru.



**Yr eog cefngrwm (gwryw) yn ei gyflwr silio.**

*Darlun gan Timothy Knepp – Gwasanaeth Pysgod a Bywyd Gwyllt yr Unol Daleithiau*

# Cefndir

Cafodd eogiaid cefngrwm eu cyflwyno’n wreiddiol i nifer o afonydd Rwsiaidd yn rhanbarth y Môr Gwyn yn y 1960au ac maent wedi lledaenu'n araf tua'r gorllewin, gan gytrefu nifer o afonydd yng ngogledd Norwy wedi hynny.

Yn hanesyddol, mae adroddiadau achlysurol o ddal eogiaid cefngrwm (*Oncorhynchus gorbuscha*) yng Nghymru a Lloegr yn dyddio’n ôl i’r 1960au. Mae’r adroddiadau mwyaf diweddar am eogiaid cefngrwm wedi bod o sbesimenau unigol, achlysurol a welwyd yn ystod blynyddoedd odrif (e.e. 2007, 2009 a 2015), ac mae hynny’n gyson â'r pysgod sy'n tarddu o boblogaethau sefydledig o eogiaid cefngrwm yn rhannau gogleddol Ffederasiwn Rwsia a gogledd Norwy. Dim ond un eog cefngrwm sydd wedi cael ei nodi’n ffurfiol yng Nghymru – ym mis Gorffennaf 2019 – pan gafodd ei ddal ym magl pysgod Caer ar afon Dyfrdwy. Ni chafwyd unrhyw adroddiadau am eogiaid cefngrwm yng Nghymru ers hynny. Fodd bynnag, mae’r ffaith bod eu niferoedd yn cynyddu yng Ngogledd yr Iwerydd yn golygu ei bod yn bosibl y byddwn yn dechrau gweld mwy ohonynt yn afonydd Cymru.

Mae gan eogiaid cefngrwm gylchred oes benodol o ddwy flynedd, a gellir gwahaniaethu rhwng stociau yn ôl y blwyddyn y maent yn dychwelyd. Mae rhai stociau'n dychwelyd yn ystod blynyddoedd “eilrif” ac eraill yn dychwelyd yn ystod blynyddoedd “odrif”. Mae eogiaid cefngrwm o Rwsia a Norwy yn deillio o stociau “blwyddyn odrif” ac mae pob un o'r adroddiadau a gafwyd yn Lloegr wedi digwydd yn ystod blynyddoedd “odrif”. Mae’n debygol felly y byddwn yn gweld cynnydd yn yr adroddiadau am eogiaid cefngrwm yn afonydd ac ardaloedd arfordirol Cymru yn ystod 2023.



**Eog cefngrwm anfrodorol a ddaliwyd yn afon Dyfrdwy ym mis Gorffennaf 2019**

# Beth rydym wedi'i ddysgu hyd yma?

Mae eogiaid cefngrwm yn silio ar adeg wahanol o'r flwyddyn o gymharu ag eogiaid yr Iwerydd (mis Gorffennaf hyd at ganol mis Hydref) – fel arfer ym mhrif sianel yr afon yn rhannau is afonydd, er eu bod wedi'u gweld mewn llednentydd i fyny'r afon. Mae’r pysgod ifanc yn deor o fewn tri i bedwar mis ac yna'n mudo'n gyflym i'r môr, sy'n cyfyngu ar y potensial iddynt ryngweithio â rhywogaethau eogaidd brodorol.
Credwyd yn flaenorol na fyddai’r amodau amgylcheddol sy’n bresennol yn afonydd y DU yn ffafriol i eogiaid cefngrwm gytrefu. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o'r Alban bellach yn dangos bod eogiaid cefngrwm wedi silio ac wedi sefydlu poblogaethau hyfyw. Mae angen inni felly fod yn effro i’r posibilrwydd y gallai poblogaethau o eogiaid cefngrwm ymsefydlu yn ein hafonydd yn y dyfodol.

Mae awdurdodau amgylcheddol yn Norwy wedi ein hysbysu y cafwyd niferoedd eithriadol o eogiaid cefngrwm yn 2021 – yr amcangyfrifir eu bod yn y degau o filoedd – mewn afonydd yng ngogledd eithaf y wlad. Fe'u canfuwyd hefyd mewn niferoedd mwy ac ymhellach i'r de ac i'r gorllewin nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Er ei bod yn anodd rhagweld beth fydd yn digwydd yn 2023, mae’r wybodaeth sydd ar gael yn awgrymu y gallai mwy o eogiaid cefngrwm gael eu gweld yn ein hafonydd dros y misoedd nesaf. Gofynnir i reolwyr pysgodfeydd, pysgotwyr a deiliaid trwydded rhwydi fod yn wyliadwrus yn enwedig os ydynt yn pysgota yn rhannau is ein systemau afonydd.

Mae cofnodi a mapio unrhyw achosion o eogiaid cefngrwm yn hanfodol i lywio ein dealltwriaeth o'r risgiau posibl sy'n deillio o bresenoldeb y rhywogaeth goresgynnol hon.

Mae sefydliadau rheoli pysgodfeydd ar draws y DU yn rhannu gwybodaeth a chyngor i sicrhau y gellir monitro a rheoli unrhyw ymddangosiadau o eogiaid cefngrwm yng Nghymru yn briodol. Bydd hyn yn cynnwys darparu cyngor parhaus i randdeiliaid, codi ymwybyddiaeth a chysylltu â rheolwyr pysgodfeydd eraill yn y DU ac yn rhyngwladol i gyfnewid gwybodaeth am unrhyw sefyllfa newydd.

Byddwch yn wyliadwrus hefyd am unrhyw weithgarwch silio cynnar neu anarferol, yn enwedig tua diwedd mis Gorffennaf, mis Awst a mis Medi pan fydd eogiaid cefngrwm yn fwyaf tebygol o fod yn weithredol mewn mannau silio – yn enwedig mewn llithriadau a rhediadau bas, graeanog. Dylid rhoi gwybod inni am unrhyw weithgarwch a amheuir cyn gynted â phosibl.

# Beth ddylech chi ei wneud os ydych yn gweld neu'n dal eog cefngrwm?

Mae modd nodi gwahaniaethau clir fel arfer rhwng yr eog cefngrwm ac eog yr Iwerydd, yn enwedig pan fyddant yn eu llawn dwf ac mewn cyflwr silio – gweler **Atodiad 1**.

– Os ydych yn gwbl hyderus eich bod wedi dal eog cefngrwm, dylid lladd y pysgodyn mewn ffordd drugarog.
– Os nad ydych yn gwbl hyderus eich bod wedi dal eog cefngrwm, yna dylid rhyddhau'r pysgodyn yn ôl i'r afon yn fyw lle cafodd ei ddal. Mae hyn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw eog yr Iwerydd yn cael ei gadw mewn camgymeriad.
– Cofiwch – mae'n drosedd cymryd eog yr Iwerydd yn unrhyw un o ddyfroedd Cymru, a byddwn yn cymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw un sydd ag un yn ei feddiant.

Os ydych yn' dal eog cefngrwm neu'n dod o hyd i sbesimen marw, ffres, cysylltwch â llinell gymorth digwyddiadau CNC ar **0300 065 3000** gan y bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl cofnodi'r pysgodyn yn ffurfiol.

Er mwyn cydlynu adroddiadau ar draws Ynysoedd Prydain, rydym hefyd yn cofnodi'r pysgod a ddalir ar ddangosfwrdd Fisheries Management Scotland – gweler y ddolen isod:-

https://fms.scot/pink-salmon-in-scotland/

Wrth gofnodi eich bod wedi dal eog cefngrwm, gofynnwn i chi gasglu'r manylion canlynol, a'u hadrodd:

- **y dyddiad y cafodd y pysgodyn ei ddal neu ei weld**
- **lleoliad y pysgodyn pan gafodd ei ddal (cyfeirnod grid os yn bosibl), yr afon a manylion y safle**
- **y dull a ddefnyddiwyd i'w ddal**
- **rhyw y pysgodyn.**

Os yn bosibl, dylech hefyd wneud y canlynol:

- **tynnu llun o'r pysgodyn – yn ddelfrydol o'r ystlys, y gynffon a'r geg**
- **cael sampl o gennau'r pysgodyn a ddaliwyd a'u storio mewn amlen bapur**
- **cymryd clip o asgell (clip o'r asgell fras neu glip o unrhyw esgyll eraill) yn ogystal â sampl o feinwe cyhyr y cefn (o leiaf 2cm x 2cm)**
- **mesur pwysau a hyd fforc y pysgodyn**
- **rhewi a storio'r pysgodyn yn gyfan cyn gynted â phosibl ar ôl ei ddal**

Gellir hefyd storio eogiaid cefngrwm sydd wedi'u hadfer neu eu cadw, mewn bag plastig addas wedi'i selio mewn rhewgell ddomestig safonol, cyn iddynt gael eu casglu. Cofiwch hefyd storio'r manylion dal ynghyd â'r pysgod, mewn bag plastig wedi'i selio ar wahân os yn bosibl.

**Os hoffech ragor o fanylion, cysylltwch â: fisheries.wales@cyfoethnaturiol cymru.gov.uk**

**Ymholiadau cenedlaethol yn ymwneud â rheoli eogiaid cefngrwm**
Dave Mee, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Rheoli Pysgodfeydd Dŵr Croyw
Rhif ffôn 03000 653280 / 07770 435339
E-bost david.mee@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid**

Rhoi gwybod am

Os oes gennych ymholiad cyffredinol sy'n ymwneud â physgodfeydd,
**ffoniwch ni ar 0300 065 3000, 24 awr y dydd**

**Croesewir siarad yn Gymraeg neu Saesneg**
**Calls welcomed in Welsh or English**

# Atodiad 1: Sut i adnabod yr eog cefngrwm:

Mae eogiaid cefngrwm (Oncorhynchus gorbuscha), yn tarddu o ogledd y Cefnfor Tawel.

Mae ymddangosiad y rhywogaeth mewn dyfroedd Ewropeaidd yn peri pryder oherwydd y posibilrwydd y bydd yn effeithio ar boblogaethau o eogiaid a brithyllod môr brodorol Cymru yn y dyfodol. Nid yw effaith bosibl yr eog cefngrwm yn glir ar hyn o bryd; ond gallai'r pysgod hyn gyflwyno parasitiaid a phathogenau nad ydynt yn bresennol mewn eogiaid brodorol. Mae'n annhebygol y byddant yn rhyngfridio ag eogiaid yr Iwerydd gan fod eogiaid cefngrwm yn silio tua diwedd yr haf ac mae eogiaid yr Iwerydd yn silio yn y gaeaf. Fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd eogiaid cefngrwm ifanc ac eogiaid yr Iwerydd ifanc yn cystadlu am fwyd a gofod mewn ardaloedd meithrin.

Sut i adnabod yr eog cefngrwm:


- Smotiau hirgrwn du mawr ar y gynffon
- Cefn glasaidd, ystlysau arian a bol gwyn
- Cennau llawer llai nag eog yr Iwerydd o'r un maint
- Ceg a thafod go dywyll
- 40-60cm o hyd
- Bydd gwrywod sy'n bridio'n datblygu crib nodweddiadol

I'r gwrthwyneb, dyma nodweddion arferol eog yr Iwerydd brodorol:

- Dim smotiau ar y gynffon
- Fel arfer yn fwy o faint (hyd at 100cm o hyd)
- Ceg a thafod gwelw
- Cennau mwy o faint
- Un smotyn du neu ddau ar groen y dagell
- Smotiau ar y cefn uwchlaw'r llinell ystlysol
- Bôn tewach i’r gynffon na chynffon eog cefngrwm

### Lluniau sy'n helpu i adnabod yr eog cefngrwm





## Yr eog cefngrwm: Cyflwr yn y cefnfor



Delwedd drwy garedigrwydd Asiantaeth yr Amgylchedd

Mae gan eogiaid cefngrwm, pan yn ffres o'r môr, liw glas dur i laswyrdd ar eu cefnau, lliw arian ar yr ystlysau ac maent yn wyn ar eu boliau. Mae smotiau duon mawr ar y cefnau, ar ochrau uchaf yr ystlysau, ar yr esgyll bras ac ar y gynffon – gall rhai o'r smotiau ar y gynffon fod mor fawr â llygaid y pysgodyn. Maent yn unffurf iawn o ran eu maint, gan gyrraedd dim ond 40 i 60cm o hyd. Mae'n bosibl, ar yr olwg gyntaf, y gellid drysu rhwng eog cefngrwm ffres ac eog yr Iwerydd bach.

## Yr eog cefngrwm: Cyflwr dŵr croyw – gwryw a benyw yr eog cefngrwm

Sylwch ar siâp y gynffon, y smotiau ar y gynffon a'r geg dywyll. Gellir adnabod gwrywod sy'n bridio ar unwaith oherwydd eu "crib" a byddant bron yn sicr yn rhedeg llaeth pan fyddant yn agos i silio. Mae eu tafodau duon a'u cynffonnau smotiog iawn hefyd yn amlwg iawn. Mae gan y pysgod benyw hefyd gynffonau smotiog iawn ac esgyll bras. Gall fod gan y pysgod arlliw brown-pinc ar yr ystlysau gan ddibynnu ar faint o amser y maent wedi'i dreulio yn yr afon.

Llun drwy garedigrwydd Helmsdale DSFB ac Ymddiriedolaeth Afon Dyfrdwy a Nigel Fell ac o Ymddiriedolaeth Eog yr Iwerydd a'r Tweed Foundation

